COVID-19 Update: 11th May

In the latest COVID-19 update from Cardiff Council: the areas having a garden waste collection this Saturday; work to resume on North Road cycle upgrade; providing online digital support during the crisis; celebrating Foster Care Fortnight; and another award for the council's house-building partnership.

One-off Saturday Garden Waste Collections Continue

A reminder that one-off Saturday garden waste collections are taking place this month.

The areas of Cardiff that have their waste collected on a **Wednesday** will have a garden waste collection this coming **Saturday, 16th May**.

Over 700 tonnes of Garden Waste were collected on the first two Saturdays of May, taken from Monday and Tuesday collection areas of the city, and the final two Saturdays of the month are allocated for Thursday and Friday collection areas.

Residents are reminded that they must only put out garden waste for collection in their green wheelie bin or their reusable garden sacks.

Any additional garden waste, which is put in any other container, including plastic bags, will not be collected.

For questions and answers on the one-off garden waste collections during May, go to:
https://www.cardiffnewsroom.co.uk/releases/c25/23726.html

Work to resume on phase 2 of the North Road Cycle Upgrade

The Council's contractor, Horan Construction Ltd, will be re-starting work on the North Road Cycle Upgrade Phase 2.

To ensure staff are able to socially distance while working, the path between the ambulance station access road and Llys Tal y Bont Road to be closed to the public while the work takes place.

This path will be closed from May 18th and is not expected to be re-opened until July.

Online digital support for all levels during the current crisis

Our Digital Support Team have been working hard to move their face to face services in to the digital sphere.

The team, part of the Council's Adult Learning service, would usually undertake digital support sessions in Hubs, but in response to the COVID-19 crisis, they are now offering their services online every week day Monday - Friday 9am-4pm (excluding bank holidays).

The team has been working to create handy 'how-to' guides and provide resources to individuals who wish to advance their digital skills whilst ensuring that they identify and reach those most vulnerable in our community who need help and access to devices and connections online.

Over the past few weeks, we have seen a rise in enquiries about home broadband connections, online scams circulating about coronavirus and staff queries on how to use Skype/ Microsoft Teams to conduct virtual meetings.

The digital surgery sessions aim to address all digital needs, whilst everyone is adjusting to home working and home schooling. People are experiencing new technologies and softwares and sometimes things may get a little overwhelming, which is something the Digital Support Team understand and that's why they are there to help.

Support includes how to use the internet, help with online banking, creating an email address, completing online applications, help with online shopping, using social media, paying bills and more.

To get in touch, simply start a chat on one of their social media platforms (listed below) or submit a query via the following web form:
https://form.jotform.com/201123417217038

A member of the Digital Support Team will be in touch either through chat, email, video call or telephone call to assist you.

Facebook:
https://www.facebook.com/digisupportcardiff/ or tag @digisupportcardiff

Twitter:
https://twitter.com/digisuppcardiff or tag @digisuppcardiff

Instagram: digisupportcardiff or tag @digitalsupportcardiff

Celebrating Foster Care Fortnight

Cardiff Council is celebrating Foster Care Fortnight, starting today, by sending a clear message to potential foster carers in the city - 'We still need you!'

Foster Care Cardiff is continuing to recruit foster carers despite the current health emergency and is keen to hear from anyone who wants to find out more about fostering and thinks they can use their skills, knowledge and expertise to help enrich and improve the lives of Cardiff's children and young people. This can be for either short breaks, respite or long-term care.

Foster Care Fortnight is an annual campaign to raise awareness around foster care and to celebrate the devotion of foster carers and the positive impact that they have on our local communities. The theme of this year's campaign, which runs from May 11 to 24, is ‘This is Fostering'.

City Hall will be illuminated in orange, Foster Care Cardiff's distinctive colour, from May 15 to 24 in recognition of Foster Care Fortnight.

Cabinet Member for Children and Families, Cllr Graham Hinchey, said: "I have had the privilege of meeting a number of foster carers in the city over the last few years, people who are new to the role and those who have been fostering for years. It has been my absolute pleasure to hear about their experiences and Foster Care Fortnight is a chance to show our gratitude to all those foster carers who are making a real difference in the lives of children and young people. Thank you to you all. You're doing an amazing job.”

City Hall will be lit orange for Foster Care Fortnight from May 15 -24, apart from Thursday May 21 when it will be lit blue once again in recognition and gratitude for the city's key workers during the COVID-19 crisis.

To read the full story, click here:
https://www.cardiffnewsroom.co.uk/releases/c25/23835.html

Hat-trick of awards for council’s house-building partnership

A new residential development in the east of Cardiff, built as part of Cardiff Council’s flagship house-building programme, has scooped a national award.

The Cardiff Living scheme development at Silvervale Park in St Mellons has won a RICS Social Impact Awards, Wales for 2020 – Cardiff Living’s third national award in the last 12 months.

Cardiff Living is a partnership initiative between the Council and national developer, Wates Residential, to build new 1,500 new homes, at least 600 of which will be council homes, across the city. The initiative is an important strand of the Council’s wider housing development strategy that seeks to deliver 2,000 new council homes, 1,000 of which will be completed by 2022, to meet high levels of demand for good quality, affordable homes.

Cabinet Member for Housing and Communities, Cllr Lynda Thorne, said: “Cardiff Living is delivering good quality, new homes that people want to live in, both in the private sales market and our own council properties – they are lovely homes.”

To read the full story, click here:
https://www.cardiffnewsroom.co.uk/releases/c25/23814.html

Diweddariad COVID-19: 11 Mai

Yn y diweddariad COVID-19 diweddaraf gan Gyngor Caerdydd: yr ardaloedd sy'n cael casgliadau gwastraff gardd dydd Sadwrn yma; ailddechrau gwaith ar uwchraddio lôn feiciau Heol y Gogledd; darparu cymorth digidol ar-lein yn ystod yr argyfwng; dathlu Pythefnos Gofal Maeth; a gwobr arall i bartneriaeth adeiladu tai y cyngor.

Casgliadau Gwastraff Gardd Untro ar ddydd Sadwrn yn parhau

Dyma nodyn i'ch atgoffa y cynhelir casgliadau gwastraff gardd untro ar ddydd Sadwrn y mis hwn.

Bydd yr ardaloedd yng Nghaerdydd y mae eu gwastraff yn cael ei gasglu ar **Ddydd Mercher** yn cael casgliad gwastraff gardd **ddydd Sadwrn yma, 16 Mai**.

Casglwyd dros 700 tunnell o wastraff gardd ar y ddau ddydd Sadwrn cyntaf ym mis Mai, o'r ardaloedd y ddinas sy'n cael casgliadau ar ddydd Llun a dydd Mawrth, gyda'r ddau ddydd Sadwrn olaf yn y mis wedi'u neilltuo ar gyfer ardaloedd sy'n cael casgliadau ar ddydd Iau a dydd Gwener.

Hoffem atgoffa preswylwyr y dylent roi gwastraff gardd allan i'w gasglu yn eu biniau olwynion gwyrdd neu eu sachau gardd amldro yn unig.

Ni fydd unrhyw wastraff gardd ychwanegol a roddir mewn unrhyw gynhwysydd arall, gan gynnwys bagiau plastig, yn cael ei gasglu.

I weld cwestiynau ac atebion am y casgliadau gwastraff gardd untro yn ystod mis Mai, ewch i:
https://www.cardiffnewsroom.co.uk/releases/c25/23726.html

Gwaith i fynd rhagddo ar gam 2 yr Uwchraddiad i Lwybr Beicio Heol y Gogledd

Bydd contractwr y Cyngor, Horan Construction Ltd, yn ail-ddechrau gwaith ar Gam 2 Uwchraddio Llwybr Beicio Heol y Gogledd.

Er mwyn sicrhau y gall staff ymbellhau yn gymdeithasol yn ddiogel tra'n gweithio, bydd y llwybr rhwng ffordd fynediad yr orsaf ambiwlans a Llys Tal-y-bont Road wedi ei gau i'r cyhoedd tra bo'r gwaith yn mynd rhagddo.

Bydd y llwybr wedi cau o Ddydd Llun 18 Mai ac nid oes disgwyl iddo ail-agor tan fis Gorffennaf.

Cymorth digidol ar-lein ar gyfer pob lefel yn ystod yr argyfwng presennol

Mae ein Tîm Cymorth Digidol wedi bod yn gweithio'n galed i symud eu gwasanaethau wyneb yn wyneb i'r byd digidol.

Fel arfer, byddai'r tîm, sy'n rhan o Wasanaeth Addysg Oedolion y Cyngor, yn cynnal sesiynau cymorth digidol mewn hybiau, ond wrth ymateb i argyfwng COVID-19, maent yn awr yn cynnig eu gwasanaethau ar-lein bob wythnos o ddydd Llun i ddydd Gwener rhwng 9am a 4pm (ac eithrio gwyliau banc).

Mae'r tîm wedi bod yn gweithio i greu canllawiau 'cymorth' defnyddiol a rhoi adnoddau i unigolion sy'n dymuno hybu eu sgiliau digidol wrth sicrhau eu bod yn adnabod ac yn cyrraedd y rheini sydd fwyaf agored i niwed yn ein cymuned y mae angen help arnynt a modd i gyrchu dyfeisiau a chysylltiadau ar-lein.

Dros yr wythnosau diwethaf, rydym wedi gweld cynnydd yn nifer yr ymholiadau am gysylltiadau band eang yn y cartref, sgamiau ar-lein sydd ar led ynglŷn â'r coronafeirws ac ymholiadau staff ynglŷn â sut i ddefnyddio Skype/Microsoft Teams i gynnal cyfarfodydd rhithwir.

Nod y sesiynau cymhorthfa ddigidol yw ymateb i bob angen digidol wrth i bawb addasu i weithio gartref a chael eu haddysgu gartref. Mae pobl yn profi technolegau a meddalwedd newydd ac weithiau gall pethau fynd yn drech na nhw, sy'n rhywbeth y mae'r Tîm Cymorth Digidol yn ei ddeall a dyna pam eu bod yno i helpu.

Mae'r cymorth yn cynnwys sut i ddefnyddio'r rhyngrwyd, help gyda bancio ar-lein, creu cyfeiriad e-bost, cwblhau ceisiadau ar-lein, help gyda siopa ar-lein, defnyddio cyfryngau cymdeithasol, talu biliau a mwy.

Er mwyn cysylltu, dechreuwch sgwrs ar un o'u llwyfannau cyfryngau cymdeithasol (a restrir isod) neu cyflwynwch ymholiad trwy'r ffurflen ganlynol:
https://form.jotform.com/201123417217038

Bydd aelod o'r Tîm Cymorth Digidol yn cysylltu naill ai drwy sgwrs, e-bost, galwad fideo neu alwad ffôn i'ch cynorthwyo.

Facebook:
https://www.facebook.com/digisupportcardiff/ neu tagiwch @digisupportcardiff

Twitter:
https://twitter.com/digisuppcardiff neu tagiwch @digisuppcardiff

Instagram: digisupportcaerdydd neu tagiwch @digitalsupportcardiff

Dathlu Pythefnos Gofal Maeth

Mae Cyngor Caerdydd yn dathlu Pythefnos Gofal Maeth, yn dechrau heddiw, drwy anfon neges glir i ddarpar ofalwyr maeth yn y ddinas - 'Mae eich angen chi o hyd!'

Mae Gofal Maeth Caerdydd yn parhau i recriwtio gofalwyr maeth er gwaethaf yr argyfwng iechyd presennol ac mae'n awyddus i glywed gan unrhyw un sydd am gael gwybod mwy am faethu ac sy'n meddwl y gall ddefnyddio ei sgiliau, ei wybodaeth a'i arbenigedd i helpu i gyfoethogi a gwella bywydau plant a phobl ifanc Caerdydd. Gall hyn fod naill ai ar gyfer seibiannau byr, gofal seibiant neu ofal hirdymor.

Mae Pythefnos Gofal Maeth yn ymgyrch flynyddol i godi ymwybyddiaeth am ofal maeth ac i ddathlu ymroddiad gofalwyr maeth a'r effaith gadarnhaol y maent yn ei chael ar ein cymunedau lleol. Thema'r ymgyrch eleni, sy'n rhedeg o 11 i 24 Mai, yw 'Dyma yw Maethu'.

Bydd Neuadd y Ddinas yn cael ei goleuo'n oren, lliw nodedig Gofal Maeth Caerdydd, o 15 - 24 Mai, i nodi Pythefnos Gofal Maeth.

Dywedodd yr Aelod Cabinet dros Blant a Theuluoedd, y Cyng. Graham Hinchey: "Rwyf wedi cael y fraint o gyfarfod â nifer o ofalwyr maeth yn y ddinas dros y blynyddoedd diwethaf, yn bobl sy'n newydd i'r rôl a'r rhai sydd wedi bod yn maethu ers blynyddoedd. Mae wedi bod yn bleser llwyr gennyf glywed am eu profiadau ac mae Pythefnos Gofal Maeth yn gyfle i ddangos ein diolchgarwch i'r holl ofalwyr maeth hynny sy'n gwneud gwahaniaeth gwirioneddol ym mywydau plant a phobl ifanc. Diolch i bob un ohonoch. Rydych chi'n gwneud gwaith anhygoel."

Bydd Neuadd y Ddinas yn cael ei goleuo'n oren ar gyfer Pythefnos Gofal Maeth 15 - 24 Mai, ac eithrio dydd Iau Mai 21 pan gaiff ei goleuo'n las unwaith eto i gydnabod a diolch i weithwyr allweddol y ddinas yn ystod argyfwng COVID-19.

Darllenwch fwy yma:
https://www.newyddioncaerdydd.co.uk/releases/w66/23836.html

Tair gwobr i bartneriaeth adeiladu tai y cyngor

Mae datblygiad preswyl newydd yn nwyrain Caerdydd, a adeiladwyd yn rhan o brif raglen adeiladu tai Cyngor Caerdydd, wedi cipio gwobr genedlaethol.

Mae'r datblygiad Cartrefi Caerdydd yn Rhos yr Arian yn Llaneirwg wedi ennill Gwobr Effaith Gymdeithasol Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig ar gyfer 2020 - trydedd gwobr genedlaethol Cartrefi Caerdydd yn y 12 mis diwethaf.

Mae Cartrefi Caerdydd yn fenter bartneriaeth rhwng y Cyngor a'r datblygwr cenedlaethol, Wates Residential, i adeiladu 1,500 o gartrefi newydd, y bydd o leiaf 600 ohonynt yn dai cyngor, ledled y ddinas. Mae'r fenter yn elfen bwysig o strategaeth datblygu tai ehangach y Cyngor sy'n ceisio darparu 2,000 o dai cyngor newydd, y caiff 1,000 ohonynt eu cwblhau erbyn 2022, er mwyn bodloni lefelau uchel o alw am gartrefi fforddiadwy o ansawdd dda.

Dywedodd yr Aelod Cabinet dros Dai a Chymunedau, y Cynghorydd Lynda Thorne: "Mae Cartrefi Caerdydd yn darparu cartrefi newydd o ansawdd dda y mae pobl eisiau byw ynddynt, yn y farchnad werthu breifat a'n heiddo cyngor ein hunain - maen nhw'n gartrefi hyfryd."

Darllenwch fwy yma:
https://www.newyddioncaerdydd.co.uk/releases/w66/23815.html

Andrea Redmond
Swyddog Gwasanaethau Democrataidd/Democratic Services Officer
Cyngor Caerdydd / Cardiff Council
E-bost/Email: A.Redmond@caerdydd.gov.uk / A.Redmond@cardiff.gov.uk
Ffôn/Tel: 02920 872434
Ystafell 286, Neuadd y Sir, Glanfa'r Iwerydd CAERDYDD CF10 4UW
Room 286, County Hall, Atlantic Wharf CARDIFF CF10 4UW